

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd Paula Ford

Ward: Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre

Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre ddydd lau 5 Mai 2022. Ers cael fy ethol, rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwy'n aelod o Fforwm Cyngor Tref a Chymuned, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2, y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Bwrdd Gwarchodwyr Coety Wallia ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (SWF&RA). Yn rhinwedd fy rôl yn SWF&RA, rwy'n bresennol ar ddau bwyllgor arall, Cyllid ac Archwilio a Phensiynau. Mae hyn yn ychwanegol at gyfarfodydd llawn misol y Cyngor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer sylweddol o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch chi, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

[Cynghorydd Paula Ford – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi cyflwyno gwaith achos / atgyfeiriadau. Rwyf wedi cynorthwyo gydag ystod eang o faterion, nad oedd pob un yn perthyn i bwerau na chylch gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond bid a fo am hynny, ymatebais i helpu i ddatrys problemau lle bynnag yr oedd yn bosibl gwneud.

Ar sawl achlysur, cynorthwysais i breswylwyr yn uniongyrchol a/neu eu cyfeirio'n gyflym at ffynonellau cymorth eraill heb fod angen proses atgyfeirio ffurfiol CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Er enghraifft: cefnogi preswylwyr i gael gafael ar wybodaeth am fudd-daliadau, cyngor a chymorth ymarferol, megis cyfeirio at fanciau/pantrioedd bwyd, Cyngor ar Bopeth, Care and Repair, V2C a chymdeithasau tai eraill ac asiantaethau arbenigol lleol eraill.

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd wyneb yn wyneb lleol i fynd ati i ymgysylltu a gwranddo ar farn a phryderon preswylwyr ac rwy'n falch mai un o'r rhain oedd cymhorthfa a gynhaliwyd ar y cyd â Chris Elmore, AS Llafur Ogwr.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn aelod o SWF&RA, rwyf wedi bod yn bresennol mewn ymweliadau â Gorsaf Dân Cwm Ogwr, achlysuron coffa, digwyddiadau hyfforddi, gorymdeithiau ymadael a chael yr anrhydedd o gyfarfod ag aelodau o Gymru o'r timau a ymatebodd i'r daeargryn yn Nhwrci-Syria a'r llifogydd ym Malawi.

Gweithgareddau/ Materion Eraill

Rwy'n gynghorydd cymuned gyda Chyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr. Rwy'n cefnogi ac yn deisebu am welliannau i'r ffyrdd o liniaru'r traffig ar yr A4061 rhwng Blackmill Road, Bryncethin a Chyffordd 36 yr M4

Rwy'n mynd i gyfarfodydd PACT rheolaidd, ynghyd â'r PCSO lleol a swyddogion o V2C, yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi a gwella'r ardal leol.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd gyda Chymdeithas Trigolion Henoed Ynysawdre, gan eu cynorthwyo gyda phroblemau sy'n codi yn eu cymuned.

Rwyf ar gael i breswylwyr siarad â mi trwy gymorthfeydd fesul un, dros y ffôn, ar neges destun, drwy'r post, e-bost, Facebook a negeseuon uniongyrchol ar WhatsApp. Rwyf hefyd yn cynnal presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned am bolisiau, newyddion a digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rwy'n cefnogi ac yn hyrwyddo busnesau lleol lle bynnag y bo modd ac yn cynnal presenoldeb gweladwy da yn yr ardal.

Cynghorydd:

Paula Ford

Dyddiad: 27 Mehefin 2023